

Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw
150 Heol Gwyrosydd
Penlan
Abertawe
SA5 7BX

06/10/2026

Annwyl arweinwyr a staff

Ymweliad Interim: Medi 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Ffocws yr ymweliad

Datblygu cyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf feithrin a datblygu eu medrau dysgu annibynnol a'u gallu creadigol y tu fewn a thu allan i'r dosbarth

- Mae arweinwyr yn datblygu dealltwriaeth gyson ymhlith athrawon o sut i feithrin annibyniaeth a chreadigrwydd y disgyblion ieuengaf, y tu fewn a thu allan i'r dosbarth.
- Mae'r pennaeth, ar y cyd â'r staff, wedi monitro a gwerthuso ansawdd y cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol ac yn greadigol yn briodol. Mae hyn wedi eu cefnogi i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn fuddiol a threfnu cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol sy'n cryfhau dealltwriaeth athrawon o arfer effeithiol. Mae athrawon yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i ddatblygu a mireinio'r ddarpariaeth.
- Mae athrawon yn cydweithio'n dda ac yn ymchwilio i wahanol ddulliau i ddatblygu dysgu annibynnol a chreadigol. Maent yn arbrofi'n bwrpasol er mwyn eu cefnogi i gynllunio amgylcheddau dysgu a phrofiadau pwrpasol sy'n darparu cyfleoedd cynyddol i disgyblion wneud dewisiadau, dilyn eu syniadau eu hunain a chymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu.
- Ar y cyfan, mae athrawon yn gwybod pryd i ymyrryd, holi neu gynnig ysgogiad, a phryd i gamu'n ôl wrth i ddisgyblion ymgymryd â thasgau. Maent yn annog a chefnogi disgyblion i feddwl drostynt eu hunain, datrys problemau a datblygu eu syniadau creadigol yn bwrpasol. Mae arweinwyr yn ymybodol o'r angen i

ddatblygu medrau'r staff cynorthwyol ymhellach er mwyn sicrhau bod dulliau dysgu a chefnogi yn cael eu gweithredu'n gyson.

- Wrth iddynt symud drwy'r dysgu sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n fwyfwy annibynnol, fel dewis a defnyddio adnoddau'n bwrpasol a dyfalbarhau wrth ddatrys problemau mewn profiadau dysgu y tu fewn a thu allan.

Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer ymateb i'r argymhelliad ac maent yn arwain y gwaith hwn yn bwrpasol.
- Fel rhan o'u trefniadau hunanwerthuso a gwella, mae arweinwyr wedi cynnwys staff yn bwrpasol wrth gasglu barn disgyblion am eu profiadau dysgu, gan gynnwys y cyfleoedd a gânt i wneud dewisiadau a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Mae athrawon wedi ymateb yn amserol ac wedi mireinio'r ddarpariaeth yn bwrpasol.
- Mae arweinwyr yn cefnogi staff i werthuso eu harfer eu hunain ac adnabod eu cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Maent yn trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol, ac yn eu hannog i gynnal gwaith ymchwil, sy'n datblygu dealltwriaeth staff o ddulliau effeithiol o hybu medrau dysgu annibynnol disgyblion. Mae'r athrawon yn dechrau cymhwyso'r dysgu hwn yn briodol yn eu harferion.
- Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae staff yn eu hannog i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn dechrau gwneud dewisiadau mwy annibynnol am beth a sut maent yn ei ddysgu. Mae amgylcheddau dysgu pwrpasol yn eu cefnogi i ddewis a defnyddio adnoddau'n bwrpasol ac, ar adegau, i benderfynu sut i fynd ati i gwblhau eu gwaith.
- Mae staff yn gwerthfawrogi barn disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Ar ddechrau themâu, mae disgyblion yn cynnig syniadau sy'n helpu i lywio rhai o'r gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn helpu disgyblion i gymryd perchnogaeth o'u gwaith ac i ymfalchïo yn y ffordd y maent yn ei gyflwyno.
- Ar y cyfan, mae disgyblion yn dechrau cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a chymhwyso'u medrau'n briodol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:

<http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6702231>

Yn gywir



Liz Miles

Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.